Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# DIOGELU GWENT

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# 2017 – 2018

# CYNNWYS

CYFLWYNIAD

RHESTR O AELODAU'R BWRDD DIOGELU

BETH RYDYN NI WEDI'I WNEUD I GYFLAWNI EIN CANLYNIADAU

SUT RYDYN NI WEDI RHOI EIN CYNLLUN BLYNYDDOL AR WAITH

GYDA PHWY RYDYN NI WEDI GWEITHIO A PHAM

CEISIADAU FFURFIOL AM WYBODAETH

LLWYDDIANNAU'R BWRDD

CYFRANIADAU GAN AELODAU'R BWRDD AC ASIANTAETHAU

DEFNYDD O ADNODDAU

THEMÂU DIOGELU A NODWYD

CYFRANOGIAD A CHYNNWYS DINASYDDION YNG NGWAITH Y BYRDDAU

DEFNYDD O ORCHMYNION AMDDIFFYN OEDOLION

DYSGU A HYFFORDDI

ARWEINIAD, CYNGOR A GWEITHIO GYDA'R BWRDD DIOGELU ANNIBYNNOL CENEDLAETHOL

MATERION ERAILL SY'N BERTHNASOL I'N GWAITH

# CYFLWYNIAD

Dyma'r ail adroddiad blynyddol am waith y Byrddau diogelu yng Ngwent. Cafodd ei lunio i roi diweddariad am y cynlluniau a gafodd eu cynhyrchu ar gyfer Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru (SEWSCB) a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GwASB) ar gyfer 2017-2018.

Lluniwyd yr adroddiad yma gyda mewnbwn gan aelodau o'r Byrddau a'r Is-fyrddau, rhanddeiliaid ehangach ac ymarferwyr. Bydd cynnwys yr adroddiad yn trafod yr 14 elfen sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015, Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae diben yr adroddiad yma wedi'i bennu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Canllaw cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru - Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol I:

*Mae diben y cynlluniau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol yn ddeublyg; byddant yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau atebolrwydd ac yn adnoddau gwerthuso defnyddiol. Yn y cyd-destun hwn, mae yna dair elfen i atebolrwydd, sef:-*

*Atebolrwydd i'r cyhoedd*

*Atebolrwydd i'r asiantaethau statudol y mae'r partneriaid Bwrdd Diogelu yn perthyn iddynt*

*Atebolrwydd i'r cyrff arolygu*

Rydyn ni hefyd yn gweithio at gyflawni ein gweledigaethau:

Ar gyfer SEWSCB

***Mae'r holl blant a phobl ifanc sy'n byw yn Ne-Ddwyrain Cymru yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod, yn byw mewn cartrefi a chymunedau diogel ac yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu potensial llawn.***

Ar gyfer GwASB

***Rydyn ni'n diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, ac sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Rydyn ni'n gweithio i sicrhau na fydd rhagor o oedolion ledled Gwent yn wynebu perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.***

Gan gadw'r uchod mewn cof, bydd yr adroddiad yma yn ceisio nodi'r cynnydd a wnaed gan y ddau Fwrdd rhanbarthol yng Ngwent dros y flwyddyn ddiwethaf, yn rhoi crynodeb o weithgaredd y grwpiau a'r ffrydiau gwaith sydd â'r nod o gefnogi fframwaith ddiogelu strategol yr ardal.

Rydyn ni wedi gweld newid yn y pwyslais ar waith gyda'n plant a'n pobl ifanc. Mae wedi newid o fod yn rhanbarthol ac yn canolbwyntio ar gam-fanteisio'n rhywiol i ymdrin â materion ehangach o ecsbloetiaeth er enghraifft masnachu mewn plant a throseddu cyfundrefnol gan gynnwys Llinellau Sirol. Rydyn ni wedi cydnabod hyn ar gyfer ein gwaith yn 2018-2019 ac mae'r datblygiad yma wedi'i adlewyrchu yn ein Cynllun Strategol Blynyddol parhaus.

Damien McCann
Cadeirydd
SEWSCB

Keith Rutherford
Cadeirydd
GwASB

# RHESTR O AELODAU'R BYRDDAU DIOGELU

## BWRDD DIOGELU PLANT DE-DDWYRAIN CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| McCann | Damien | **Cadeirydd** / Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Jenkins | Gareth | **Is-gadeirydd** / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Bakewell | Ian | Rheolwr Tai a Chymunedau | Cyngor Sir Fynwy |
| Barrett | Nicola | Rheolwr y Gwasanaeth - Diogelu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Berry | Stephen | Swyddog Datblygu'r Bwrdd | Uned Fusnes Diogelu Rhanbarthol |
| Binding | Diana | Prif Weithredwr Cynorthwyol | Cwmni Adsefydlu Cymunedol |
| Bradley | Chris | Rheolwr y Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Brain | Nicola | Ditectif Uwcharolygydd | Heddlu Gwent |
| Chicken | Sian | Pennaeth Gweithrediadau | GDAS |
| Corrister | Diane | Rheolwr Diogelu | Cyngor Sir Fynwy |
| Davies | Deb | Rheolwr Diogelu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Evans | Liz | Pennaeth Tai Cymunedol | Tai Cymunedol Bron Afon |
| Evans | Tanya | Pennaeth Gwasanaethau Plant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Featherstone | Martin | Prif Swyddog Gweithredol | GAVO |
| Hamlet | Ann | Arweinydd Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Harvey | Nikki | Pennaeth Diogelu | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Haycock | Rebecca | Ymgynghorydd Rhanbarthol | VAWDASV |
| Jenkins | Sally | Pennaeth Gwasanaethau Plant | Cyngor Sir Casnewydd |
| Kennedy | Peter | Uwch-swyddog Gweithredol | Cynghrair Gwirfoddol Torfaen |
| Manners | Bethan | Uwch Gyfreithiwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Marchant | Claire | Prif Swyddog | Cyngor Sir Fynwy |
| Mason | Giles | Llywodraethwr | CEM Brynbuga |
| McChrystal | Dermot | Pennaeth Addysg | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Moon | Marisa | Cyfarwyddwr Cynorthwyol | Barnardos |
| Naughton | Aideen | Meddyg Penodedig | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Nicholls | Heather | Pennaeth Gwent | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| O'Brien | Jason | Pennaeth y Gwasanaeth | Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Torfaen |
| Richards | Jacalyn | Rheolwr y Gwasanaeth | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen |
| Richards | Kelly | Swyddog Datblygu | Uned Fusnes Diogelu Rhanbarthol |
| Roach | Mel | Rheolwr Busnes | Uned Fusnes Diogelu Rhanbarthol |
| Rodgers | Jane | Pennaeth Gwasanaethau | Cyngor Sir Fynwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Plant | |
| Rogers | Michaela | Rheolwr y Gwasanaeth | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Caerffili a Blaenau Gwent |
| Ryan | Mary | Rheolwr Diogelu | Cyngor Sir Casnewydd |
| Slater | Lin | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Thomas | Eleri | Dirprwy Gomisiynydd Trosedd | Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Thomas | Liz | Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol | GAVO |

## BWRDD DIOGELU OEDOLION GWENT GYFAN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rutherford | Keith | **Cadeirydd** / Cyfarwyddwr, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Slater | Lin | **Dirprwy Gadeirydd**/Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Bakewell | Ian | Pennaeth Tai | Cyngor Sir Fynwy |
| Barrett | Nicola | Rheolwr y Gwasanaeth - Diogelu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Bartlett | Steve | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | |
| Berry | Stephen | Swyddog Datblygu'r Bwrdd | Uned Fusnes Diogelu Rhanbarthol |
| Binding | Diana | Prif Weithredwr Cynorthwyol | Cwmni Adsefydlu Cymunedol |
| Boothroyd | Julie | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | Cyngor Sir Fynwy |
| Bradley | Chris | Rheolwr Diogelu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Brain | Nicola | Ditectif Uwcharolygydd | Pennaeth Uned Amddiffyn y Cyhoedd, Heddlu Gwent |
| Chicken | Sian | Pennaeth Gweithrediadau | GDAS |
| Davies | Deborah | Rheolwr y Gwasanaeth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Day | Andrew | Rheolwr y Gwasanaeth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Farr | Dr Nigel | Meddyg Teulu | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Featherstone | Martin | Prif Swyddog Gweithredol | GAVO |
| Galvin | Kay | Pennaeth Addysg | Gwasanaeth Tân De Cymru |
| George | Louise | Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol | GAVO |
| Hamlet | Ann | Arweinydd Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Harris | James | Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyngor Sir Casnewydd |
| Harvey | Nikki | Gweithiwr Proffesiynol Diogelu a Enwyd | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Haycock | Rebecca | Ymgynghorydd Rhanbarthol | VAWDASV |
| Hiscocks | Vikki | Pennaeth Heneiddio'n Egnïol | Derwen Cymru (rhan o Grŵp POBL) |
| Hoskins | Alyson | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Humphrey | Chris | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | Cyngor Sir Casnewydd |
| Mason | Giles | Llywodraethwr | CEM Brynbuga |
| Nicholls | Heather | Pennaeth | Uned Rhyddhau Lleol Gwent, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Pratlett | Gill | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Richards | Kelly | Swyddog Datblygu'r Bwrdd | Uned Fusnes Diogelu Rhanbarthol |
| Roach | Mel | Rheolwr Busnes | Uned Fusnes Diogelu Rhanbarthol |
| Ryan | Mary | Rheolwr y Gwasanaeth - Diogelu | Cyngor Sir Casnewydd |
| Street | Dave | Cyfarwyddwr, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Thomas | Eleri | Dirprwy Gomisiynydd Trosedd | Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Thomas | Liz | Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol | GAVO |
| Williams | Jo | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Oedolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |

# BETH RYDYN NI WEDI'I WNEUD I GYFLAWNI EIN CANLYNIADAU

Yn ystod y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, cafodd y grwpiau oedd yn ategu'r ddau Fwrdd diogelu ar y lefel strategol yng Ngwent, eu hailstrwythuro'n sylweddol. Rhwng diwedd 2016 a chychwyn 2017, penderfynodd y grwpiau strategol gyfuno nifer o'u ffrydiau gwaith gydag oedolion a phlant, ac mewn rhai achosion i gynnwys y grŵp rhanbarthol Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws holl strwythur y bartneriaeth ddiogelu strategol rhanbarthol. Yr eithriad i hyn oedd ein Grwpiau Sicrwydd Ansawdd sy'n dal i fod yn berthnasol i Oedolion a Phlant ar wahân.

Mae hyn yn golygu bod aelodaeth o'r byrddau wedi cael ei hadolygu a'i diwygio a bod y cylchoedd gorchwyl wedi'u diweddaru. Mae wedi bod yn gyfle, mewn rhai achosion, i gael trefniadau newydd o ran cadeiryddion ac is-gadeiryddion, ond mae hefyd wedi golygu bod angen amser ar y grwpiau eu hunain i gyfuno'u busnes.

Bellach mae gan bob is-grŵp gynllun gwaith sy'n cysylltu'n uniongyrchol gyda'r cynllun strategol blynyddol ac rydyn ni'n gallu adrodd yn rheolaidd ar y cynnydd drwy'r grŵp Cynllunio Busnes i'r Byrddau. Mae hyn yn rhoi fframwaith llywodraethu cadarn i ni, ac yn ein galluogi ni i ymateb a chefnogi ffrydiau gwaith er mwyn lleihau risg. Mae pob grŵp wedi parhau i ddefnyddio'r fethodoleg o weithio gyda llawer o grwpiau gorchwyl a gorffen aml-asiantaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant gan fod grŵp ehangach ond mwy perthnasol o ymarferwyr ynghlwm â gwaith y Byrddau. Mae hyn yn gwella cyfathrebu rhwng staff rheng flaen a staff sy'n gweithio ar lefel fwy strategol.

Rydyn ni wedi parhau â'n busnes craidd i adolygu a diwygio canllawiau rhanbarthol, ac mae llawer ohonynt wedi cael eu newid i sôn am ddiogelu oedolion a phlant ac i fod yn gyfredol gyda deddfwriaeth sy'n newid. Rydyn ni wedi dechrau gweithio ar fframwaith sicrwydd ansawdd a fydd yn rhoi 'ciplun' o ddiogelu yn y rhanbarth i aelodau'r bwrdd. Mae hyn wedi bod ar y gweill ers peth amser ac mae wedi cael ei rannu gydag aelodau'r Bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am y broses ac yn rhan ohoni. Mae'n cynnwys offeryn Archwilio Adran 135 a fydd yn sicrhau bod Byrddau yn cael sicrwydd bod trefniadau diogelu cadarn gan asiantaethau cyfansoddol ar waith.

Rydyn ni'n parhau i ddatblygu, darparu a chomisiynu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n codi ymwybyddiaeth o ddiogelu ac yn ychwanegu gwerth at hyfforddiant asiantaethau o ran diogelu. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda chynrychiolwyr o Banel Dinasyddion Gwent i annog cyfranogiad ar bob lefel. Rydyn ni wedi defnyddio fforymau lleol a rhanbarthol i gasglu barn plant a phobl ifanc a'r rhai sydd wedi goroesi camdriniaeth ar amrywiaeth o bynciau. Ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu rydyn ni wedi rheoli prosiect grŵp o weithwyr aml-asiantaeth proffesiynol sydd wedi cynhyrchu llawer o glipiau cyfryngau digidol i'w defnyddio yn ein pecynnau hyfforddi ac er mwyn codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol.

Mae ein Grŵp Adolygu Achosion wedi bod yn gweithio gyda'r pump o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y rhanbarth er mwyn cymryd cyfrifoldeb dros argymhellion ynghylch a ddylid cynnal Adolygiadau o Ddynladdiad Domestig, ynghyd â'r argymhellion maen nhw eisoes yn eu gwneud i gadeiryddion Bwrdd unigol am Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion. Rydyn ni'n parhau i gynnal adolygiadau ymarfer plant ac oedolion. Mae'r gwaith i gwblhau Fforymau Proffesiynol Aml-asiantaeth, lle caiff dysg ar gyfer grwpiau o ymarferwyr ei nodi, bellach yn cael ei wneud gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol. Mae

adborth am y themâu a'r gwersi a ddysgwyd hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol gan gynnwys gweithdai, briffiau a gwybodaeth ar y we.

Mae ein Grŵp Cynllunio Busnes, yn ogystal â bod yn llinell gyswllt rhwng yr is-grwpiau a'r bwrdd strategol, bellach wedi cymryd cyfrifoldeb rheolaethol dros gyflwyno'r cyfarfodydd Camfanteisio Rhywiol Aml-asiantaeth (MASE) yn rhanbarthol, sy'n darparu fframwaith ar gyfer rheoli achosion o ecsbloetiaeth lefel uchel.

Rydyn ni wedi parhau i weithio ar draws y sbectrwm diogelu ac wedi gwthio ein prosiect arloesol i ffrydio prosesau adolygu ar gyfer teuluoedd yn ei flaen. Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o bob disgyblaeth i beilota Adolygiadau o Ddynladdiad Domestig dan arweiniad y Swyddfa Gartref ac wedi defnyddio fformat hybrid sy'n ymgorffori'r canllawiau adolygu ymarfer oedolion, er mwyn ceisio gwneud yr adolygiadau yn fwy perthnasol ac amserol. Mae'r prosiect yma, sydd dal yn mynd rhagddo, hefyd yn cynnig gwerthusiad annibynnol sy'n cael ei ddarparu gan academyddion o Brifysgol Caerdydd.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi bod yn chwarae rhan weithredol, drwy aelodau unigol a fforymau rhanbarthol, i greu a chraffu ar ddogfen strategaeth ranbarthol VAWDASV.

Rydyn ni hefyd wedi creu cysylltiadau gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarth Gwent drwy eu fforwm darparu sydd wedi ein galluogi ni i ddechrau prosiect gyda darparwyr eiriolaeth, sef DEWIS a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, a defnyddwyr y gwasanaethau i hyrwyddo defnydd o eiriolaeth mewn gwasanaethau oedolion.

# Strwythur Diogelu Strategol Rhanbarthol



# SUT RYDYN NI WEDI RHOI EIN CYNLLUNIAU BLYNYDDOL AR WAITH

Mae gan ddau Fwrdd Diogelu Gwent flaenoriaethau strategol sy'n pennu'r cyfeiriad gwaith ar gyfer y flwyddyn.

Y blaenoriaethau yw:

SEWSCB

- Lleihau effeithiau Rhianta wedi'i Gyfaddawdu ar lesiant plant, yn benodol o ran *esgeulustod* a *chamdriniaeth emosiynol.*
  Rydyn ni wedi dechrau gwaith ar adolygu ein canllawiau ymarfer ar esgeulustod yn dilyn ein harchwiliad esgeulustod. Wrth ddechrau'r gwaith, sylweddolwyd bod angen cynnwys oedolion yn y darn yma o waith. Mae hyn wedi golygu bod grŵp mwy o ymarferwyr ynghlwm â'r gwaith o ddatblygu protocol esgeulustod trosfwaol a fydd yn cynnwys canllawiau ymarfer i'w defnyddio gan ymarferwyr mewn gwasanaethau Plant ac Oedolion.
  Rydyn ni wedi defnyddio ein digwyddiadau Fforwm Ymarferwyr Rhwydwaith Diogelu Lleol i greu cysylltiadau gyda'n gwasanaethau VAWDASV a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau Cam-drin Domestig ar blant a'r cysylltiad â chamdriniaeth emosiynol. Rydyn ni hefyd wedi adolygu ein rhaglenni hyfforddi cyffredinol i greu cysylltiadau rhwng rhianta wedi'i gyfaddawdu a chamdriniaeth emosiynol.
- Gwella ein gwaith gyda phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad peryglus yn enwedig ymddygiad sy'n ymwneud â *Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant* ac *ymddygiadau peryglus ar-lein.*
  Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn Heddlu Gwent gan mai nhw sy'n arwain ar ymateb i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn y rhanbarth. Rydyn ni wedi hyrwyddo'r defnydd o gyfarfodydd MASE fel ymateb aml-asiantaeth da i'r holl gamau sydd wedi'u nodi yn ein cynllun. Mae'r cyfarfodydd yma bellach yn cael eu hwyluso drwy'r rhanbarth cyfan ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi darparu adnoddau cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod ymateb aml-asiantaeth gwirioneddol ar gael i ddelio â'r pryder yma yn y rhanbarth.
  Rydyn ni wedi datblygu cwrs hyfforddi sy'n ymdrin â chadw pobl ifanc yn ddiogel ar-lein ac mae hwn bellach yn cael ei hwyluso yn fisol. Rydyn ni wedi cael adborth gwych gan ymarferwyr am y cynnydd mewn hyder wrth ymdrin â'r math yma o ymddygiad peryglus. Rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda'n cydweithwyr mewn gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol er mwyn hwyluso cwrs am ymdrin â hunanladdiad a hunan-niweidio, cwrs sydd yr un mor boblogaidd ac sy'n cael adborth da. Mae'r cwrs hefyd yn ymdrin ag ymddygiadau peryglus ar-lein o ran y syniad o gyflawni hunanladdiad ac ymddygiad hunan-niweidiol.

GwASB

- Targedu Ymyraethau tuag at oedolion sydd mewn perygl o ddioddef mathau penodol o gamdriniaeth, yn enwedig o ran *Esgeulustod* a *Chamdriniaeth Ariannol*
  Rydyn ni wedi cynnal gwaith ar fynychder esgeulustod fel canran o atgyfeiriadau diogelu, sydd wedi rhoi gwaelodlin i ni ynghylch pa mor gyffredin yw esgeulustod o ran diogelu oedolion. Rydyn ni

hefyd wedi dechrau gwaith i gynhyrchu protocol trosfwaol a chanllawiau ymarfer penodol i blant fel y nodwyd uchod. Mae hwn yn enghraifft dda o sut mae modd i'r cyfeiriad strategol sy'n cael ei bennu gan y Byrddau ddylanwadu ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel gwasanaeth rheng flaen. Rydyn ni wedi gweithio gyda'n cydweithwyr yn Heddlu Gwent i fesur mynychder camdriniaeth ariannol yn ein poblogaeth o oedolyn mewn perygl. Mae hyn wedi dylanwadu ar y ffordd rydyn ni'n codi ymwybyddiaeth am y mater. O ganlyniad i'r gwaith yma, rydyn ni wedi sicrhau bod camdriniaeth ariannol yn rhan bwysig o'n Digwyddiadau Fforwm Ymarferwyr Rhwydwaith Diogelu Lleol gan sicrhau ein bod ni'n cyrraedd ystod eang o ymarferwyr gofal cymdeithasol.

- Gwella Ansawdd Gofal sy'n benodol yn gysylltiedig â *rheoli niwed straen* a *hyrwyddo eiriolaeth oedolion.*
  Rydyn ni wedi dechrau gwaith ar gytuno ar brotocol gweithio a chanllawiau ymarfer i gyd-fynd â'r canllawiau cyfredol sy'n cael eu defnyddio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i reoli niwed straen. Rydyn ni'n rhagweld y bydd y gwaith yma wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, a bydd yn cynnig dull cyson sy'n sicrhau bod y broses yn rhoi blaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd yn y llwybr y cytunir arno.
  Drwy ein cysylltiadau gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, rydyn ni wedi datblygu cyfle i gynnwys darparwyr gwasanaethau eirioli cymeradwy, defnyddwyr gwasanaethau yn ogystal ag ymarferwyr, i gynhyrchu cyfres o adnoddau i godi ymwybyddiaeth o fuddion gwasanaethau eirioli a chyfrifoldebau gwasanaethau statudol i barchu 'cynnig rhagweithiol' o eiriolaeth. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddi a bydd wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol newydd. Rydyn ni hefyd wedi adolygu a diwygio ein hyfforddiant diogelu oedolion cyffredinol i gynnwys rhagor o wybodaeth am ddefnyddio gwasanaethau eirioli a'u buddion.

Mae hefyd blaenoriaethau ar y cyd yn bodoli sy'n berthnasol i'r ddau Fwrdd:

- Sicrhau effeithiolrwydd parhaus yr ymarfer diogelu yn ystod y cyfnod o weithredu a phontio i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
  Rydyn ni wedi creu cysylltiadau gyda 'thîm trawsnewid' Gwent a oedd yn gyfrifol am roi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar waith yn esmwyth. Mae gennym lawer o aelodau ar y Bwrdd sy'n cynrychioli'r byrddau diogelu ar y byrddau partneriaeth a'r fforymau cysylltiol. Fe wnaethon ni sicrhau bod ein blaenoriaethau strategol yn cael eu hystyried pan gafodd asesiadau o anghenion Gwent eu cynnal a'r cynllun ardal ei ffurfio.
  Rydyn ni wedi gwneud cysylltiadau da gyda'n cynrychiolydd ar y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) sy'n dod i'r cyfarfodydd Bwrdd ac yn rhoi diweddariadau rheolaidd i ni am waith y NISB.
  Rydyn ni wedi methu â pharhau gyda'n pwynt gweithredu am weithdrefnau cyfredol gan fod gwaith ar y gweithdrefnau diogelu cenedlaethol heb eu cwblhau hyd yn hyn. Yn yr un modd â rhanbarthau eraill, rydyn ni'n parhau i ddefnyddio Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Interim Cymru Gyfan.

- Cynnal Byrddau Diogelu Rhanbarthol Effeithiol.
  Rydyn ni wedi bod yn gweithio i godi proffil y ddau Fwrdd Diogelu yng Ngwent drwy ein Rhwydweithiau Diogelu Lleol, sef yn y cyfarfodydd yn y pum ardal awdurdod lleol a'r digwyddiadau Rhwydwaith. Mae'r rhain yn dod ag ystod eang o ymarferwyr a gwirfoddolwyr ynghyd ac yn tynnu

sylw at amrywiaeth eang o faterion diogelu yn y gwasanaethau plant, oedolion a VAWDASV. Maen nhw wedi bod yn ddigwyddiadau prysur a phoblogaidd iawn gan eu bod yn rhoi cyfleoedd i bobl ddysgu am ddiogelu mewn gwasanaethau na fydden nhw'n dod ar eu traws fel arfer.
Rydyn ni wedi datblygu ein gwaith o ran ein proses archwilio adran 135 ac mae hyn wedi cysylltu â'r gwaith o gyflwyno ein Fframwaith Sicrwydd Ansawdd, sydd wedi cymryd mwy o amser nag a fwriadwyd. Rydyn ni bellach wedi cyrraedd pwynt ble rydyn ni ar fin peilota'r broses gasglu data a gwybodaeth cyn cyflwyno'r wybodaeth i'r ddau Fwrdd.
Rydyn ni wedi methu â pharhau gyda hunanasesiad ffurfiol ar gyfer y Byrddau oherwydd yr oedi wrth gynhyrchu pecyn cymorth cyfredol. Cydnabyddir bod y gwaith hwn bellach yn mynd rhagddo ac rydyn ni'n bwriadu peilota / asesu'r fersiwn newydd yn ein sesiwn datblygu'r Bwrdd ar y cyd sydd i'w chynnal yn ddiweddarach yn 2018.

# GYDA PHWY RYDYN NI WEDI GWEITHIO Â NHW I DDIOGELU POBL GWENT

Rydyn ni wedi cydweithio ag amrywiaeth o asiantaethau, partneriaethau eraill a fforymau er mwyn ein galluogi ni i wireddu ein hamcanion hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Heddlu Gwent;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Gwent;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Y Gwasanaeth Carchardai;
- Y Gwasanaeth Tân ac Achub;
- Cymdeithas Wirfoddol Gwent;
- Cynghrair Gwirfoddol Torfaen;
- Gwasanaethau Alcohol a Chyffuriau Gwent;
- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent;
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Gwent.

Ac o Ardaloedd ein Pum Awdurdod Lleol – Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen

- Addysg;
- Gwasanaethau Plant;
- Gwasanaethau Oedolion;
- Darparwyr Tai Statudol;
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Mae gennym gysylltiadau gwaith cryf gyda phartneriaethau Rhanbarthol a Chenedlaethol eraill:

- VAWDASV;
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- NISB;
- Pob Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion yng Nghymru.

Ac yn olaf, ond yn sicr nid y lleiaf, rydyn ni wedi gweithio gyda:

- Panel Dinasyddion Gwent;
- Plant a Phobl Ifanc;
- Rhieni a Gofalwyr;
- Goroeswyr.

# CEISIADAU FFURFIOL AM WYBODAETH

Yn ystod y flwyddyn rhwng 2017 a 2018 nid oes un o Fyrddau Diogelu Gwent wedi gwneud unrhyw geisiadau ffurfiol am wybodaeth gan bersonau cymwys. Yn yr un modd, nid yw'r un o'r Byrddau wedi cael ceisiadau ffurfiol am wybodaeth gan asiantaethau neu fyrddau cymwys.

# LLWYDDIANNAU'R BYRDDAU DIOGELU YN YSTOD Y FLWYDDYN DDIWETHAF

Mae'r Byrddau wedi pennu'r cyfeiriad ar gyfer ystod eang o waith diogelu a ffyrdd arloesol o weithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi cynnwys:

- Adolygu a diwygio cyfansoddiad, Cylch Gorchwyl a ffyrdd o weithio ein his-grwpiau. Mae hyn wedi arwain at is-strwythur sy'n fwy dynamig a llyfn gyda llai o ddyblygu. Mae hefyd wedi bod yn gyfle i ymarferwyr rannu profiadau a syniadau ar draws agendâu oedolion, plant a VAWDASV.
- Rydyn ni bellach wedi cyfieithu gwefannau SEWSCB a GwASB. Mae hyn yn golygu ein bod yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg.
- Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion wedi bod yn gweithio'n agosach gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol drwy'r uwchgynhadledd arweinyddiaeth a chyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru.
- Yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, buodd ein rhanbarth yn arwain ar y thema Camdriniaeth Ddomestig. Buon ni'n gweithio ar y cyd â chydweithwyr o'r bartneriaeth VAWDASV ranbarthol i ddarparu cynhadledd aml-asiantaeth a chyfres o ddigwyddiadau lleol i godi ymwybyddiaeth ac i hyrwyddo manteision ymateb aml-asiantaeth.
- Rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid i gynhyrchu cynllun strategol y Byrddau, ac mae hyn wedi sicrhau ein bod wedi cymryd rhan yn y gwaith o gynhyrchu cynllun ardal Gwent a strategaeth ranbarthol VAWDASV.
- Rydyn ni wedi lledaenu'r hyn a ddysgon ni o un adolygiad achos difrifol a gwblhawyd a thri adolygiad ymarfer plant a gwblhawyd yn uniongyrchol i ymarferwyr drwy gyfres o weithdai lleol a gynhaliwyd.
- Rydyn ni wedi rheoli prosiect a ariannwyd gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent i gynhyrchu cyfres o glipiau cyfryngau er mwyn codi ymwybyddiaeth gyffredinol o ddiogelu ac i wella ein pecynnau hyfforddi a gymeradwywyd gan y Bwrdd.
- Rydyn ni wedi gweithio gyda Phanel Dinasyddion Gwent i gyfethol aelod ar ein grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu.
- Rydyn ni wedi gweithio ar brosiect arloesol i hwyluso'r Broses Ddynladdiad Domestig yng Ngwent. Rydyn ni wedi cynnwys llawer o bartneriaid ac rydyn ni'n cychwyn bwrw ymlaen gyda'r gwaith, gyda'r bonws o gael gwerthusiad wedi'i gyfuno yn rhan o'r prosiect. Bydd y fantais yma'n broses llai beichus i deuluoedd ac yn ffordd rwyddach a mwy amserol i ymarferwyr ddysgu.
- Mae ein cyfarfodydd Rhwydwaith Diogelu Lleol a'r digwyddiadau fforwm ymarferwyr sy'n cael eu cynnal bob chwe mis wedi bod yn ffordd lwyddiannus iawn o rannu gwybodaeth ar draws pob agenda diogelu. Mae'r gwerthusiadau wedi dangos eu bod yn cynnig cyfleoedd gwych i rwydweithio a dysgu gwybodaeth. Maen nhw bellach wedi'u sefydlu yn rhan graidd o fusnes y Bwrdd.
- Mae cyflwyno Pynciau Llosg ar lefel y Bwrdd a'r Rhwydwaith Lleol wedi galluogi'r aelodau i godi pryderon diogelu ar amrywiaeth o lefelau.
- Rydyn ni wedi dechrau gwaith ar brosiect uchelgeisiol i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ar y cyd a fydd yn cynnwys gwaith y ddau Fwrdd.

- Rydyn ni wedi parhau i ddarparu busnes craidd ar gyfer y ddau Fwrdd gan gynnwys cynnal adolygiadau, cyflwyno ein pecynnau hyfforddi sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd, gweithio gyda'n cydweithwyr ledled Cymru, a chael cyngor gan ymarferwyr rheng flaen a defnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd.

# CYFRANIADAU GAN AELODAU'R BWRDD AC ASIANTAETHAU

Yn ogystal â chael cymorth rhagorol a chyfranogiad rheolaidd gan aelodau ar lefel y Bwrdd Strategol, rydyn ni wedi bod yn ddigon ffodus i ddefnyddio adnoddau gan holl asiantaethau cyfansoddol y Bwrdd a llawer o bartneriaethau eraill i gefnogi gwaith y Byrddau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyfranogiad aelodau'r Bwrdd wedi cynyddu yn sgil cyflwyno'r eitem 'Pynciau Llosg' yn barhaol ar yr agenda. Caiff aelodau'r Bwrdd eu hannog i rannu pryderon a themâu diogelu ar lefel Bwrdd, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd strategol yn ymwybodol o faterion lleol, ac yn cynnig cymorth a chyngor yn ôl yr angen.

Yn ogystal, rydyn ni'n ddibynnol ar asiantaethau i ddarparu unigolion i weithio yn Uned Fusnes Diogelu Gwent ac i ddarparu Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i'n grwpiau.

Daw ein trefniadau Cadeirio ac Is-gadeirio ar gyfer ein grwpiau o:

| | |
|---|---|
| **SEWSCB**<br>Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent<br>Gwasanaethau Plant Caerffili | **GwASB**<br>Gwasanaethau Cymdeithasol Torfaen<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **GRŴP ADOLYGU ACHOSION**<br>Heddlu Gwent<br>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | **GRŴP CYNLLUNIO BUSNES**<br>Tîm Diogelu Casnewydd<br>Tîm Diogelu Torfaen |
| **GRŴP SICRWYDD ANSAWDD PLANT**<br>Gwasanaethau Plant Sir Fynwy | **GRŴP SICRWYDD ANSAWDD OEDOLION**<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU**<br>Gwasanaethau Oedolion Casnewydd<br>Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | **DYSGU A DATBLYGU**<br>Datblygu'r Gweithlu Torfaen<br>Tîm Diogelu Oedolion Diogelu Blaenau Gwent |
| **PROTOCOLAU A GWEITHDREFNAU**<br>Tîm Diogelu Sir Fynwy<br>Gwasanaethau Plant Torfaen | |

Rydyn ni hefyd wedi defnyddio ein hadnoddau partner i greu 'grŵp darparu' er mwyn datblygu, adolygu a hwyluso rhaglen hyfforddi gyffredinol ein Bwrdd. Rydyn ni wedi gallu defnyddio'r adnoddau yma i 'wneud mwy gyda llai' o ran faint o hyfforddiant rydyn ni'n gallu ei ddarparu i ymarferwyr. Mae partneriaid yn rhoi'r adnoddau yma i ni fel taliad mewn nwyddau i'r Byrddau sydd, yn ei dro, yn ein galluogi ni i ddefnyddio ein cyllideb i dalu am leoliadau yn unig. Mae holl asiantaethau partner y Bwrdd wedi cyfrannu at yr adnodd yma, sy'n gyfraniad sylweddol i fusnes y Bwrdd yn ein barn ni.

Rydyn ni hefyd yn ddibynnol ar yr adnoddau sy'n cael eu darparu gan asiantaethau a phartneriaid i Gadeirio a darparu adolygwyr ar gyfer adolygiadau ymarfer plant ac oedolion a Fforymau Proffesiynol Aml-asiantaeth. Rydyn ni wedi bod yn ddigon ffodus i gael defnyddio staff o Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu Gwent, Tîm Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Tîm Diogelu Torfaen, Tîm Diogelu Casnewydd, Tîm Diogelu Sir Fynwy, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen, Tîm Diogelu Caerffili a Gwasanaethau Plant Caerffili yn y broses adolygu sydd wedi dechrau, neu sydd wrthi'n cael ei chynllunio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Rydyn ni hefyd yn cynllunio i fwrw ymlaen gydag adolygiad peilot sy'n cyfuno adolygiadau o Ddynladdiad Domestig gydag Adolygiadau Ymarfer Oedolion, ac rydyn ni hefyd, yn ystod y broses gynllunio, wedi

gweithio gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, VAWDASV, Diogelu Casnewydd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Heddlu Gwent, Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Gartref, Prifysgol Caerdydd, Eiriolaeth ar ôl Camdriniaeth Ddomestig Angheuol (AAFDA) a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy.

Rydyn ni'n ddibynnol iawn ar y cymorth a'r gefnogaeth gan Reolwyr Arweinwyr Diogelu o'r pum Awdurdod Lleol yng Ngwent gan eu bod yn Cadeirio eu Cyfarfodydd Rhwydwaith Diogelu Lleol eu hunain ac yn cynnal eu digwyddiadau Fforwm Ymarferwyr y Rhwydwaith Diogelu Lleol bob chwe mis.

Yng Ngwent, mae'r ffordd mae'r Byrddau a'r is-grwpiau yn gweithredu yn enghraifft wych o'r ffordd y gall gwaith aml-asiantaeth weithio ar ei orau. Heb ymrwymiad a chyfraniad aelodau'r Bwrdd, asiantaethau a phartneriaid, ni fyddai gwaith y Bwrdd ar ei lefel bresennol yn bosibl.

# DEFNYDD O ADNODDAU

Mae'r Bwrdd yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan asiantaethau partner statudol sydd wedi cytuno ar y fformiwla ariannu sydd wedi'i phennu yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg', sef y canllawiau sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae hyn yn ariannu uned fusnes diogelu rhanbarthol sy'n cynnwys Rheolwr Busnes, Swyddogion Datblygu a staff Cymorth Gweinyddol sy'n darparu cymorth i'r Byrddau Plant ac Oedolion, yr is-grwpiau a'r Rhwydweithiau Diogelu Lleol.

Mae'r Byrddau hefyd yn darparu rhaglen hyfforddi ranbarthol aml-asiantaeth gynhwysfawr. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o gyrsiau diogelu cyffredinol sy'n galluogi ymarferwyr a gwirfoddolwyr yn y rhanbarth i gael mynediad am ddim i'r cyrsiau. Mae'r cyrsiau wedi'u cynllunio i ategu ac ychwanegu gwerth i'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan dimau datblygu'r gweithlu yn y rhanbarth.

Mae costau penodol y cymorth yma wedi'u nodi isod. Mae'r costau yma wedi aros yr un peth dros y tair blynedd ddiwethaf.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y costau | £355,000 |
| | |
| Costau staffio | £289,000 |
| Costau rhedeg o ddydd i ddydd | £26,000 |
| Adolygiadau Ymarfer Plant | £4,000 |
| Adolygiadau Ymarfer Oedolion | £4,000 |
| Rhaglenni Hyfforddi | £22,000 |
| Ymgysylltiadau / Gwefannau a Chyhoeddusrwydd / Digwyddiadau proffesiynol (Gan gynnwys yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol) | £10,000 |

Cydnabyddir nad yw adnoddau sy'n cael eu defnyddio i gefnogi gwaith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi'u cyfyngu i gyfraniadau ariannol gan asiantaethau partner statudol. Mae Cadeiryddion y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, Aelodau'r Bwrdd Gweithredol, Cadeiryddion ac aelodau'r Is-grŵp yn darparu llawer o amser i gefnogi'r Bwrdd a'i waith. Yn aml, mae hyn yn ychwanegol at eu rolau proffesiynol a nodwyd a'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Mae natur newidiol ac amrywiol gwaith y Byrddau yn ei gwneud hi'n anodd adrodd am hynny mewn cyd-destun mesuradwy, ac nid yw bob amser yn weledol i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill. Rhai enghreifftiau yn unig o waith a phrosiectau'r bwrdd diogelu yw'r broses, y gwaith o reoli a chyhoeddi adolygiadau ymarfer plant ac oedolion, yn ogystal â datblygu protocolau a pholisïau rhanbarthol sydd angen lefel uchel o fewnbwn, gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol.

# THEMÂU DIOGELU A NODWYD

Mae'r Byrddau yng Ngwent yn defnyddio llawer o ddulliau o nodi themâu diogelu. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliadau, adolygiadau, ymarfer cyfredol a phryderon strategol rhanbarthol a chenedlaethol sy'n dod i'r amlwg. Pan gânt eu nodi, mae'r Byrddau'n defnyddio'r themâu yma fel sail i waith yn y dyfodol a phennu cyfeiriad blaenoriaethau strategol y Bwrdd wrth symud ymlaen.

Un enghraifft o hyn yw'r gwaith mae GwASB yn ei wneud mewn ymateb i gyhoeddi'r adroddiad 'Chwilio am Atebolrwydd'. Adlewyrchodd ein Cynlluniau hyn gan i ni ddefnyddio 'Ansawdd Gofal' fel un o'n blaenoriaethau strategol. Yn yr un modd, defnyddiodd SEWSCB y gwaith ymchwil a gwblhawyd gyda phlant a phobl ifanc ynghylch cadw'n ddiogel i flaenoriaethu cadw pobl ifanc yn ddiogel ar-lein fel un o'u blaenoriaethau strategol.

Mae rhai o'r themâu diogelu eraill a nodwyd yn ystod y flwyddyn wedi bod yn gysylltiedig â'r gostyngiad yn ein poblogaeth 'mewn perygl'. Rydyn ni wedi gweithio i alinio strwythurau a llwybrau adrodd gyda phrotocolau cyfredol y Bwrdd Iechyd.

Mae rhai o'r themâu sydd wedi deillio o adolygiadau ymarfer plant yn gysylltiedig â gweithio gyda theuluoedd sy'n amharod i gydweithio ac rydyn ni wedi adolygu a gwella canllawiau er mwyn helpu ymarferwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd.

Rydyn ni hefyd wedi nodi rhannu gwybodaeth fel thema sy'n codi dro ar ôl tro, ac o ganlyniad, rydyn ni wedi adolygu ein defnydd o gronolegau aml-asiantaeth ac wedi gwneud y canllawiau cysylltiedig yn fwy cadarn.

Rydyn ni'n deall bod materion iechyd meddwl ymysg pobl ifanc yn peri pryder ac mae dau o'n hadolygiadau diweddaraf yn trafod y mater yma. Rydyn ni wedi gweithio gyda'n cydweithwyr mewn gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol i ddatblygu cwrs hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol, er mwyn eu paratoi yn well i ymdrin â'r pryderon yma.

Rydyn ni hefyd wedi gweld bod cysylltiad cryf rhwng cam-drin domestig a chamdriniaeth emosiynol ac esgeulustod ymysg plant. O ganlyniad i hyn, rydyn ni wedi bod yn edrych ar y themâu ac yn dysgu o Adolygiadau Dynladdiad Domestig yn ein rhanbarth ac yn sicrhau bod y dysg o'r adolygiadau yma, yn ogystal â'r adolygiadau ymarfer plant ac oedolion, yn cael ei rannu.

# CYFRANOGIAD A CHYNNWYS DINASYDDION YNG NGWAITH Y BYRDDAU DIOGELU

Rydyn ni'n deall pwysigrwydd gweithio gyda dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau, plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a goroeswyr er mwyn pennu'r cyfeiriad strategol a dylanwadu ar waith ein Byrddau. Er mwyn hwyluso'r broses yma, rydyn ni wedi creu cysylltiadau drwy ein grŵp ymgysylltu a chyfathrebu gyda nifer o fforymau a grwpiau cyfredol. Mae hyn yn ein galluogi ni i ddefnyddio'r grwpiau yma ar gyfer darnau penodol o waith yn ôl yr angen. Mae hyn yn golygu y gallwn ni sicrhau ein bod yn cynnwys y grŵp mwyaf perthnasol o unigolion gyda phob prosiect rydyn ni'n ei wneud. Un enghraifft o'r gwaith yma oedd siarad gyda grŵp rhwydwaith rhianta lleol am ddatblygu cynnwys tudalennau'r wefan ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae rhai enghreifftiau eraill yn cynnwys:

- Y cynhyrchiad Drama rhyngweithiol am Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a gafodd ei gyflwyno ym mhob ysgol ar gyfer grŵp blwyddyn penodol;
- Grŵp gorchwyl a gorffen datblygu gwefannau sydd wedi ymgynghori â gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr ar wahanol lefelau am gynnwys;
- Creu cysylltiadau gyda'r 'fforwm darparu' rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu;
- Defnyddio gwybodaeth gan Wasanaeth Alcohol a Chyffuriau Gwent fel sail i lunio ein Fframwaith Sicrwydd Ansawdd;
- Creu cysylltiadau cryf gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Gwent a siarad â phobl ifanc ym mhob ardal leol drwy'r cynyrchiadau dramâu rhyngweithiol 'Go Girls' a 'Brothers' oedd yn canolbwyntio ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant;
- Gweithio gyda grŵp o oroeswyr drwy gydweithio â VAWDASV;
- Rheoli prosiect gyda grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth i weithio gyda darparwyr gwasanaethau eirioli er mwyn codi ymwybyddiaeth o newidiadau mewn deddfwriaeth ynghylch y 'cynnig rhagweithiol' am wasanaethau eirioli;
- Cynnwys teuluoedd yn ein prosesau adolygu fel mater o arfer. Mae hyn wedi sicrhau bod teuluoedd yn teimlo'n rhan o'r broses ac yn gallu dylanwadu ar gynhyrchu argymhellion fel rhan o'r broses adolygu;
- Mae gennym aelod o banel Dinasyddion Gwent sy'n dod i'n holl grwpiau ymgysylltu a chyfathrebu. Mae hyn wedi profi'n llwyddiant wrth greu cysylltiad cryf gyda'r panel a nifer o fforymau eraill yng Ngwent.

# DEFNYDD O ORCHMYNION AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION

Ni chafodd yr un Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ei ddefnyddio gan GwASB yn ystod y flwyddyn.

# DYSGU A HYFFORDDI

Mae gennym hanes hir yn rhanbarth Gwent o ddarparu pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr. Caiff yr hyfforddiant ei ddarparu i ategu'r hyfforddiant sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan asiantaethau unigol. Rydyn ni'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys comisiynu hyfforddiant ar gyfer pynciau mwy arbenigol, ond eleni rydyn ni wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn nifer y cyrsiau sy'n cael eu hwyluso drwy ein dull grŵp darparu. Rydyn ni wedi gallu cynyddu nifer y llefydd sydd ar gael a sicrhau gwell ansawdd a gwerthuso'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig.

Eleni, rydyn ni wedi dechrau'r gwaith o alinio darpariaeth y cyrsiau ar gyfer diogelu oedolion gyda'r rhai sy'n cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc. Er bod y gwaith hwnnw yn dal i fynd rhagddo, rydyn ni wedi adolygu a diwygio llawer o'r modiwlau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol gyda'r ddeddfwriaeth bresennol ac rydyn ni wedi dechrau eu peilota. Rydyn ni hefyd yn bwriadu datblygu cwrs cyflwyniad i ddiogelu ar y cyd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod a fydd yn trafod plant ac oedolion. Dyma grynodeb o'r hyfforddiant a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

| Teitl y Cwrs | Nifer y Sesiynau | Mynychwyr |
|---|---|---|
| Cyflwyniad i Ddiogelu – Codi Ymwybyddiaeth o Gamdriniaeth ac Esgeulustod ymysg Plant | 13 | 254 |
| Diogelu Plant – Cydnabod, Atgyfeirio a'r Broses Amddiffyn Plant | 12 | 257 |
| Trin Materion o Hunanladdiad a Hunan-niweidio ymysg Plant a Phobl Ifanc | 2 | 36 |
| Gweithio gydag Esgeulustod – Parhau i Ganolbwyntio ar y Plentyn | 2 | 36 |
| Diogelu Plant wrth ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol, y Rhyngrwyd, Gemau a Dyfeisiau Symudol | 9 | 170 |
| Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed a Phobl Ifanc rhag risg Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo | 4 | 45 |
| Hyfforddiant 'Dedfryd Gudd' | 3 | 38 |
| Rheoli Pobl Ifanc sy'n Ymwneud ag Ymddygiad Rhywiol Niweidiol | 5 | 95 |
| Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Sylweddau Seicoweithredol Newydd | 3 | 45 |
| Hyfforddiant SERAF | 7 | 112 |
| Siarad â...Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gamddefnyddio Sylweddau | 5 | 60 |
| **Cyfanswm** | **65** | **1148** |

# ARWEINIAD, CYNGOR A GWEITHIO GYDA'R BWRDD DIOGELU CENEDLAETHOL

Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae cynrychiolwyr o Fyrddau Gwent wedi cyfrannu'n llawn at ddigwyddiadau cenedlaethol. Mae hyn wedi cynnwys y Bwrdd prosiect ar gyfer cynhyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, cyfarfodydd uwchgynhadledd Arweinyddiaeth Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a chyfarfodydd ymgynghori unigol. Mae ein rhanbarth yn cyfrannu'n llawn mewn cyfarfodydd a digwyddiadau rhwydweithio Rheolwyr Busnes Diogelu Cymru Gyfan.

Mae ein Byrddau yn cael diweddariadau rheolaidd gan yr aelod cyswllt dynodedig ar yr NISB ac mae hyn yn eitem barhaol ar agendâu'r ddau Fwrdd. Rydyn ni'n deall bod ychydig o bryderon gan yr NISB ynghylch cynhyrchu'r Cynlluniau a'r Adroddiadau Blynyddol blaenorol ac o ganlyniad, rydyn ni wedi diwygio'r fformatau er mwyn sicrhau dull cyson drwy Gymru Gyfan.

Rydyn ni wedi cael ein cynghori gan gydweithwyr o Fyrddau Rhanbarthol eraill bod adolygiadau wedi cael eu cyhoeddi sydd wedi dylanwadu ar yr agenda cenedlaethol o ran meysydd ymarfer penodol megis Addysg Ddewisol yn y Cartref, ac o ganlyniad rydyn ni wedi adolygu ein hymateb i gynhyrchu adolygiadau o'r fath. Yn y dyfodol, rydyn ni'n bwriadu tynnu sylw at y ddysg genedlaethol yma ar lefel leol a lledaenu'r ddysg i'n hymarferwyr drwy ein rhwydweithiau sefydledig.

Rydyn ni'n deall yn llawn pa mor bwysig yw hi i gydweithio gyda phartneriaid yng Ngwent ac rydyn ni wedi darparu canllawiau i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol am y broses adolygu sy'n cael ei defnyddio gan Fyrddau. Yn ogystal â hyn, mae ein blaenoriaethau strategol wedi bod yn sail i gynhyrchu cynlluniau ym mhob ardal Awdurdod Lleol.

# MATERION ERAILL SY'N BERTHNASOL I'N GWAITH

Wrth adolygu ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd nifer o syniadau ac awgrymiadau ar sut i ddatblygu'n gwaith dros y flwyddyn i ddod.

O ran diogelu plant, rydyn ni'n deall bod angen i ni ehangu ar ein cwmpas o godi ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a'i reoli, i ffurfiau eraill o ecsbloetiaeth. Mae hyn wedi dod i'n sylw yn sgil ymwybyddiaeth genedlaethol o gaethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl a llinellau sirol. Mae ein Cynllun ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys blaenoriaethau sy'n ymdrin â'r pryderon yma. Ym maes diogelu oedolion, rydyn ni wedi dechrau gwaith ar gamdriniaeth ariannol sydd wedi tynnu sylw at bryder ynghylch gamblo, ac mae hyn wedi creu cysylltiadau â diogelu sy'n ymestyn dros y ddwy agenda, o ganlyniad, rydyn ni'n bwriadu gweithio mewn modd mwy holistaidd er mwyn taclo'r materion yma.

Rydyn ni'n bwriadu defnyddio astudiaethau achos fel ffordd arall o ddarparu dysg i ymarferwyr ac yn bwriadu peilota'r dull yma yn ein grwpiau Sicrwydd Ansawdd yn ystod y flwyddyn nesaf.

Rydyn ni hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd bod yn hyblyg yn ein gallu i ragweld ac ymateb i dueddiadau rhanbarthol a chenedlaethol. O ganlyniad i hyn, mae ein sesiynau datblygu Bwrdd yn ceisio edrych ar yr ystod o flaenoriaethau cenedlaethol sy'n ymddangos a byddwn yn defnyddio'r rhain i ddylanwadu ar ein cyfeiriad strategol i'r dyfodol.